

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Comisiynydd y Gymraeg

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

Eich cyfeiriad:

E-bost: lowri.williams@cyg-wlc.cymru; (0345 6033221)

Cwestiynau Ymgynghori

C1 – A ydych yn cytuno a'r diffiniad o Awtistiaeth sy'n cael eu defnyddio yn y Cod yma?			
Ydy'r diffiniad yn gywir i ddarparwyr gwasanaethau ac yn dderbyniol i bobl awtistig? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.			
Cytuno <input type="text"/>	Tueddu i Gytuno <input type="text"/>	Tueddu i Anghytuno <input type="text"/>	Anghytuno <input type="text"/>
Nid oes gennym sylw.			
C2 – A ydych chi'n cytuno y dylai'r Cod ganolbwyntio ar wasanaethau awtistiaeth neu a ellid ei ehangu ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol eraill?			
Awtistiaeth yn unig <input type="text"/>	Pob cyflwr niwroddatblygiadol <input type="text"/>	Dim barn <input type="text"/>	
Nid oes gennym sylw.			
C3 – Adran 1: Trefniadau ar gyfer asesiad a diagnosisid o awtistiaeth mewn plant, pobl ifanc ac oedolion.			
C3a - A yw'r gofynion arfaethedig yn adran hon or Cod yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau a phobl awtistig? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.			

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

Cytuno	Tueddu i Gytuno	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nid oes dim eglurhad yn y cod ynghylch yr angen i gynnal diagnosis o awtistiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn bod angen i'r cod gadarnhau bod rhaid i holl drefniadau asesu a diagnosis o awtistiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion fod ar gael yn Gymraeg yn unol â dymuniadau unigolion. Golyga hyn fod angen manylder yn y cod ynghylch sut y bydd ymarferwyr yn gwybod bod angen i asesiad unigolyn ddigwydd trwy gyfrwng y Gymraeg a pha drefniadau a roddir yn eu lle i alluogi hynny. Yn ymarferol mae hynny wrth gwrs yn golygu bod angen ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n gallu cynnal yr asesiadau yn Gymraeg ac mae angen i'r asesiadau eu hunain fod ar gael yn Gymraeg.

Gweler isod am ragor o wybodaeth am hyn.

C3b – A ydi'r ddogfen canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cod hwn yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth am yr adran yma? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno	Tueddu i Gytuno	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Ar ddechrau'r canllawiau ceir datganiad cyffredinol ynghylch y Gymraeg, ac rydym yn croesawu hyn. Mae'n tynnu sylw at yr angen i 'sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y gwaith cynllunio a chyflenwi a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg awtistig, heb iddynt orfod gofyn amdanynt.' Rydym yn croesawu'r datganiad hwn gan ei fod yn cyd-fynd â chysyniad y cynnig rhagweithiol, fodd bynnag yn yr adran hon o'r canllawiau sy'n trafod asesiad a diagnosis ni cheir unrhyw eglurhad pellach am sut mae sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg awtistig. Credwn y dylai'r cod a'r canllawiau gynnwys llawer mwy o gyfarwyddyd ynghylch y drefn o sicrhau y bydd pob cam o'r trefniadau ar gyfer asesu a diagnosis ar gael yn Gymraeg. Nid yw datganiad cyffredinol am hyn ar ddechrau'r canllawiau yn ddigonol. Rhaid i bob adran gynnwys y gofyniad hwn a manylder am sut y darperir gwasanaethau yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Nodir hefyd yn yr adran gyffredinol hon ar ddechrau'r canllawiau sy'n trafod gwasanaethau Cymraeg 'fod angen i ymarferwyr gydnabod y gall plant fod yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf ac y bydd hyn yn effeithio ar ganlyniadau asesiadau a gyflawnir drwy gyfrwng y Saesneg.' Dylid ychwanegu at y cymal uchod yn ogystal nad dim ond plant sydd â'r Gymraeg fel iaith gyntaf iddynt, ond yn hytrach mae pobl o bob oed â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Yn ogystal boed y Gymraeg yn iaith gyntaf neu fel arall mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg fel arfer am fod yn ddwy neu yn amlieithog ac mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i hynny wrth gynnal asesiadau. Rydym yn falch er hynny, fod cydnabyddiaeth yn y canllawiau o'r broblem hon sy'n peri annhegwch mawr i unigolion sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau yn cydnabod y broblem yn

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

ddigonol a chredwn bod angen i'r canllawiau a'r cod nodi'n glir pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau na fydd sefyllfa o'r fath hon (lle bo siaradwr Cymraeg yn derbyn diagnosis trwy gyfrwng y Saesneg) yn digwydd o gwbl ac y bydd asesiadau yn cael eu cynnal yn y Gymraeg. Golyga hyn bod angen i'r cod a'r canllawiau gynnwys cyfarwyddyd ynghylch sut mae sicrhau y bydd hyn yn digwydd yn ymarferol.

Nodir yn rhan 1.4 o'r canllawiau 'er mwyn cael diagnosis o awtistiaeth, mae angen i unigolion gael eu hasesu gan dîm amlddisgyblaethol o ymarferwyr sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol ar asesu ar gyfer awtistiaeth.' Eir ymlaen i nodi'r mathau o ymarferwyr fyddai'n rhan o'r timau arbenigol hyn ac fe gyfeirir at bobl mewn nifer fawr o ddisgyblaethau. Credwn ei bod yn gwbl angenrheidiol bod y timau amlddisgyblaethol hyn yn medru cynnal pob agwedd ar yr asesiad yn Gymraeg. Rhaid felly sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu cynllunio ac ymarferwyr o bob maes ar gael sy'n medru cynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hynny'n digwydd drwy recriwtio a hyfforddi siaradwyr Cymraeg i'r swyddi hyn a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio fel y bônt ar gael i gynnal yr asesiadau. Rhaid hefyd i'r asesiadau a wneir gael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg waeth beth fo oedran y sawl sy'n cael ei asesu, nid dim ond yn achos plant fel sydd yn y canllawiau. Dylwn nodi yn hyn o beth bod Comisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar wedi darparu tystiolaeth i achos yn y Llys Gwarchod ynghylch argaeledd ymarferwyr sy'n gallu cynnal asesiadau galluedd trwy gyfrwng y Gymraeg a bod gorchymyn wedi mynd bellach i bob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol gyhoeddi'r nifer o ymarferwyr sy'n gallu cynnal asesiadau o'r fath trwy gyfrwng y Gymraeg. Gweler isod yn ein hateb i gwestiwn C6 ein sylwadau cyffredinol am y gwaith o asesu anghenion y boblogaeth mewn perthynas â gwasanaethau awtistiaeth.

Mater hollbwysig arall yw bod rhaid sicrhau bod yr asesiadau awtistiaeth a ddefnyddir ar gael yn Gymraeg ac wedi'u safoni ar gyfer pobl ddwyieithog sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Yn hyn o beth rydym yn ymwybodol nad yw'r asesiadau cyffredin a ddefnyddir (megis ADR-I, ADOS) i wneud diagnosis o awtistiaeth wedi'u cyfieithu neu eu safoni i'r Gymraeg. Rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth er mwyn cyflenwi gwasanaethau awtistiaeth a rhaid rhoi trefniadau cydlynus cenedlaethol i sicrhau hyn fel eu bod ar gael at ddefnydd ymarferwyr ym mhob bwrdd iechyd ar gyfer pan ddaw'r cod ymarfer hwn i rym. Nid yw'n dderbyniol o gwbl bod y canllawiau yn nodi bod problem sy'n achosi bod siaradwyr Cymraeg o dan anfantais oherwydd nad yw asesiadau ar gael yn Gymraeg heb fod camau yn eu lle i ddatrys y broblem honno.

Yn ogystal, o safbwynt y gofyniad a osodir ar fyrddau iechyd yn benodol dylid nodi bod gofyn iddynt yn unol â safonau'r Gymraeg gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd sy'n nodi ba raddau y gallant gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg a'r camau y bwriedir eu cymryd i gynyddu eu gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg. Credwn fod sicrhau bod asesiadau o'r math yma ar gael yn safonol yn y Gymraeg yn greiddiol i allu'r byrddau iechyd i fedru darparu gwasanaethau clinigol yn y Gymraeg.

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

C4 - ADRAN 2: Trefniadau ar gyfer Cael Gafael ar Ofal a Chymorth

C4a - A yw'r gofynion arfaethedig yn adran hon or Cod yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau a phobl awtistig? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno	Tueddu i Gytuno	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Eglurwch os gwelwch yn dda:
 Nid yw'r cod yn cynnwys cyfarwyddyd ynghylch darparu trefniadau cael gafael ar ofal a chymorth yn y Gymraeg. Credwn bod angen i'r adran hon o'r cod gynnwys cyfarwyddyd mwy penodol ynghylch yr angen i awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau cael gafael ar ofal a chymorth ar gael yn Gymraeg a sut y bydd hynny'n digwydd. Dylai'r gofynion a wneir yn y cod ar awdurdodau lleol gynnwys bod pobl awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad o anghenion drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno hynny. Gweler isod yn ogystal.

C4b – A ydi'r ddogfen canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cod hwn yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth am yr adran yma? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno	Tueddu i Gytuno	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Eglurwch os gwelwch yn dda:
 Fel y nodom eisoes mewn perthynas â rhan 1 y canllawiau wrth ymateb i gwestiwn 3b uchod mae angen llawer mwy o fanylder yn y canllawiau ynghylch sut y bydd y gwasanaethau a nodir yn cael eu darparu yn y Gymraeg gan fod cydnabyddiaeth cyffredinol bod angen gwneud hynny ar ddechrau'r canllawiau. Mae ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn berthnasol i bob un cam o'r trefniadau arfaethedig. Credwn bod angen i bob adran a chyfarwyddyd o'r canllawiau hyn gael eu gwneud gan ystyried anghenion cyfathrebu siaradwyr Cymraeg a bod angen amlygu'r angen hwn ym mhob rhan o'r cod a'r canllawiau.

Er enghraifft, yn adran 2.5 y canllawiau nodir: 'Mae'n hanfodol bod aseswyr gofal cymdeithasol yn deall anghenion pobl awtistig, fel eu bod yn gallu darparu'r cyngor a'r cymorth mwyaf priodol i unigolion, rhieni a gofalwyr.' Yn hyn o beth felly, ein disgwyliad fyddai bod aseswyr gofal cymdeithasol yn deall anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg, eu teuluoedd a'u gofalwyr ym mhob ffordd wrth asesu, ac felly yn gallu cynnal yr asesiad ei hun yn Gymraeg. Rhaid cofio wrth gwrs bod awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

safonau'r Gymraeg a bod gofynion penodol yn ymwneud â chynnal cyfarfodydd ynghylch llesiant unigolion sy'n golygu bod angen iddynt ofyn a yw unigolion yn dymuno cymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg a darparu cyfieithu ar y pryd iddynt neu gynnal y cyfarfod yn Gymraeg i gyd¹ os ydynt yn dymuno hynny. Byddem yn disgwyl bod y disgwyliadau statudol hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y canllawiau. Fel y cyfryw, nid oes cyfeiriad o gwbl at y disgwyliadau sydd ar fyrddau iechyd nac awdurdodau lleol mewn perthynas â safonau'r Gymraeg yn y cod na'r canllawiau.

Mae adran 2.9 y canllawiau yn manylu ar drefniadau mewn perthynas â chymorth mewn ystadau diogeled. Fel y nodir yn y canllawiau, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am asesu'r holl oedolion yn y ddalfa yn eu hardal. Yn 2018 cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg adroddiad ar y Gymraeg mewn carchardai oedd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd gan siaradwyr Cymraeg hawliau i dderbyn gwasanaethau Cymraeg pan fônt mewn carchardai y tu allan i Gymru gan mai dim ond yng Nghymru y mae gofynion o safbwynt safonau'r Gymraeg yn berthnasol i awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n bryder felly ei bod yn bosibl na fydd pobl sydd angen gwasanaethau awtistiaeth yn Gymraeg mewn carchardai y tu hwnt i Gymru yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn Gymraeg o gwbl. Dylai'r canllawiau gynnwys gwybodaeth ynghylch sut mae sicrhau bod siaradwyr Cymraeg awtistig sydd mewn carchardai yng Nghymru yn wir yn derbyn gwasanaethau Cymraeg yn ogystal â siaradwyr Cymraeg mewn carchardai y tu allan i Gymru.

Elfen bwysig sy'n cael ei amlygu yn y rhan hon o'r canllawiau ac yn wir trwy'r cod ymarfer a'r canllawiau yn eu cyfanrwydd yw'r pontio rhwng gwaith gwahanol asiantaethau sy'n rhan o gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth. Rhaid sicrhau bod trefniadau technolegol a/neu weinyddol sy'n galluogi cofnodi a throsglwyddo dewisiadau ac anghenion ieithyddol unigolion, teuluoedd a gofalwyr yn hwylus rhwng yr asiantaethau hyn. Byddai hynny yn galluogi sefydliadau i gynllunio eu gwasanaethau fel y bo modd iddynt ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg i bobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gweler ein hymateb i gwestiwn C5b yn hyn o beth.

C5 – ADRAN 3: Trefniadau ar gyfer Asesu Anghenion Hyfforddiant a Darparu Hyfforddiant

C5a - A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau a phobl awtistig? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno	Tueddu i Gytuno	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno
<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

1 Mae'r sefyllfa yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall ac mae eu hysbysiadau cydymffurfio unigol yn nodi'r gofyniad. Gweler hefyd Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/contents/made/welsh>.

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

<p>Rydym yn falch fod y cod yn pwysleisio bod 'cyfathrebu da rhwng darparwyr gwasanaethau, pobl awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr yn hanfodol' a bod 'rhaid i driniaeth, gofal a chymorth, a'r wybodaeth a roddir amdanynt, fod yn briodol i oedran ac i iaith a diwylliant yr unigolyn'. Yn hyn o beth mae sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith ar bob cam o dderbyn gwasanaethau yn hanfodol. Gyda hynny mewn golwg, mae'r dyletswyddau drafft yn rhoi pwys ar yr angen i awdurdodau lleol sicrhau bod gan y sawl sy'n asesu anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad. Hefyd dywedir bod rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd 'sicrhau bod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yr wybodaeth a'r hyfforddiant mewn awtistiaeth i gyflawni eu rôl, gan ymgysylltu â chyrrff proffesiynol arbenigol lle bo hynny'n berthnasol' a bod angen 'sicrhau bod gan unrhyw un sy'n cynnal asesiad o gyflwr sbectrwm awtistig gydag unigolyn y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen i asesu a rhoi diagnosis.' O'r datganiadau hyn dehonglwn bod rhaid sicrhau bod gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ac awdurdodau lleol ddigon o weithwyr gofal iechyd a gweithwyr gofal sydd â sgiliau yn y Gymraeg i fedru cyflawni eu gweithgareddau mewn perthynas â gwasanaethau awtistiaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Buasem yn dadlau nad oes gan unigolyn nad yw'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg y sgiliau na'r cymhwysedd addas i fedru ymgymryd â'u dyletswyddau yn llawn mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg awtistig. Rhaid felly sicrhau bod y gofynion a wneir o fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol mewn perthynas â hyfforddi a darparu hyfforddiant yn golygu bod cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r angen i ddarparu gwasanaethau awtistiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>			
<p>C5b – A ydi'r ddogfen canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cod hwn yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth am yr adran yma? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.</p>			
<p>Cytuno</p> <div style="text-align: center;"><input type="text"/></div>	<p>Tueddu i Gytuno</p> <div style="text-align: center;"><input type="text"/></div>	<p>Tueddu i Anghytuno</p> <div style="text-align: center;"><input type="text"/></div>	<p>Anghytuno</p> <div style="text-align: center;"><input type="text"/></div>
<p>Yn adran 3.1 y canllawiau credwn bod angen tynnu sylw at y trefniadau ar gyfer sut i fynd ati i gynnal asesiadau yn y Gymraeg, ac i godi ymwybyddiaeth o beth i'w wneud os bydd unigolyn yn sylweddoli na all gynnal asesiad digonol oherwydd nad yw'n gallu darparu'r gwasanaeth yn y Gymraeg.</p> <p>Yn adran 3.3 ceir manylder am y broses o ddysgu a datblygu'r gweithlu. Nodir mai 'cyfrifoldeb rheolwyr fydd gwerthuso'r gwahanol rolau o fewn eu hadran a phennu lefel yr hyfforddiant sy'n briodol i'r rôl. Argymhellir y dylid gwneud hyn adeg recriwtio i</p>			

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

benderfynu ar lefel yr hyfforddiant awtistiaeth sy'n briodol i'r rôl ac i gynnwys hyn mewn cynlluniau datblygu unigol.' Ceir manylder yn ogystal am y dull o asesu anghenion hyfforddiant staff ynghyd â'r math o hyfforddiant a ddarperir ar gyfer gwahanol aelodau o staff. O safbwynt recriwtio dylem eich cyfeirio at safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i recriwtio sy'n berthnasol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol fel ei gilydd². Yn eu mysg mae'r gofyn iddynt, wrth recriwtio i swyddi newydd neu swyddi gweigion, asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y swyddi mewn golwg.³ Rhaid hefyd iddynt ddarparu cyrsiau hyfforddi ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal â hyn rhaid i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ddarparu cyfleoedd i aelodau o staff ddysgu a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Yn yr adran hon o'r canllawiau felly, credwn y dylid cynnwys ystyriaeth i'r angen i gynllunio gwasanaethau a'r gweithlu ac ar sail hynny recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg a darparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ieithyddol yng nghyd-destun darparu gofal i bobl awtistig sy'n siarad Cymraeg. Ceir rhestr hir o'r math o broffesiynau a ddylai dderbyn hyfforddiant awtistiaeth, a dylai ystyriaethau sy'n ymwneud â siaradwyr Cymraeg awtistig a'u teuluoedd fod yn berthnasol i hyfforddiant yr holl ddarparwyr hyn.

Mae adran 3.4 yn berthnasol iawn yng nghyd-destun darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gan ei fod yn canolbwyntio ar bwysigrwydd gweithio integredig rhwng asiantaethau a sectorau. Nodir 'Yn unol â deddfwriaeth, dylai gwybodaeth am unigolion gael ei rhannu rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gydgyssylltiedig ac yn cael eu darparu mewn modd di-dor ac amserol ar draws y gymuned. Dylai technoleg fodern, cyfleusterau a gwasanaethau lleol gael eu defnyddio i helpu pobl i fyw bywydau iach ac i gefnogi'r rheini sydd angen gofal.' Mae'n hollbwysig bod gwybodaeth am ddymuniadau ac anghenion ieithyddol unigolion awtistig a'u gofawyr/teuluoedd yn cael eu rhannu rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn pob elfen o wasanaethau awtistiaeth yn eu dewis iaith a hynny heb orfod gofyn am hynny yn unol ag egwyddor y cynnig rhagweithiol o wasanaethau. Mae pwysigrwydd sicrhau bod technoleg yn galluogi hynny wedi cael sylw diweddar mewn adroddiad gan Gomisiynydd y Gymraeg ar sail gwaith grŵp gorchwyl a gorffen ar y cyd â chynrychiolwyr o asiantaethau eraill. Mae argymhellion y grŵp wedi'u rhannu â Llywodraeth Cymru ac eraill. Rhoddir sylw i bwysigrwydd technoleg gwybodaeth o safbwynt darparu gwasanaethau Cymraeg yn adran 7.3 *Mwy na geiriau*⁴ lle nodir y bwriad i 'ddatblygu canllawiau ac arferion, a chytuno arnynt, ar gyfer dull safonol o olrhain dewis o ran y Gymraeg ar gofnodion cleifion ar gyfer staff mewn iechyd a gofal cymdeithasol.' Dylid ymgorffori'r canllawiau hyn yn llawn i dechnoleg gwybodaeth wrth ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig.

² Mae rhifau'r safonau yn y rheoliadau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015)) a chyrrff iechyd (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 yn wahanol.

³ Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi datblygu canllawiau ar gyfer hwyluso'r broses o recriwtio a'r Gymraeg. Maent wedi cael eu rhannu â phob corff sy'n gweithredu yn unol â safonau'r Gymraeg.

⁴ [Mwy na geiriau Cynllun Gweithredu 2019–2020 \(llyw.cymru\)](#)

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

C6 – ADRAN 4: Trefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau awtistiaeth			
C6a - A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau a phobl awtistig? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.			
Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i Gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i Anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
<p>Mae gofynion y cod yn nodi bod rhaid i'r asesiadau poblogaeth nodi 'sut y caiff gwasanaethau awtistiaeth eu darparu gan ystyried y boblogaeth, iaith a diwylliant gan gyfeirio'n benodol at y Gymraeg.' Rydym wrth gwrs yn cytuno â'r angen hwn. Fodd bynnag, ar sail yr asesiadau o'r boblogaeth a'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant rydym yn bryderus nad oes gwir ystyriaeth wedi cael ei roi gan bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol i'r angen i ddarparu gwasanaethau awtistiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, dim ond yn achos un bwrdd partneriaeth rhanbarthol y trafodir anghenion siaradwyr Cymraeg awtistig fel rhan o'r asesiad ehangach o ddarpariaeth gwasanaethau awtistiaeth. Yn achos y byrddau eraill ar y cyfan mae trafodaeth am y Gymraeg yn digwydd mewn man arall yn yr asesiadau/adroddiadau a hynny ar wahân i'r asesiadau unigol sy'n dilyn y themâu, megis awtistiaeth, a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n bryder gennym felly sut y mae'r gofynion sydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn y cod ymarfer hwn am gael eu cyflawni mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg os nad oes asesiadau digonol wedi cael eu cyflawni.</p> <p>Credwn bod angen edrych ar y mater hwn ar fyrder er mwyn sicrhau bod modd cyflenwi'r gwasanaethau awtistiaeth disgwylidig yn y cod ymarfer trwy gyfrwng y Gymraeg a chyflawni'r datganiad canlyniad llesiant cenedlaethol 'Rwy'n cael gofal a chymorth trwy'r Gymraeg os bydda i eu hangen.' Yn hyn o beth dylem dynnu eich sylw at ganfyddiadau'r Adolygiad o Adroddiadau Asesiadau o Anghenion y boblogaeth (Evaluation of Local Authority Population Needs Assessment Reports) gan y Ganolfan Iechyd y Boblogaeth sy'n nodi 'some issues with Welsh language service provision were highlighted – most notably in the North Wales report. It is interesting to note that reference to Welsh language services was not always highlighted through each regional report as this was explicitly part of the guidance issued by the Act.'⁵ Yn sicr dylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru wella'n sylweddol yr ymdriniaeth a roddir i anghenion siaradwyr Cymraeg yn yr asesiadau o'r boblogaeth nesaf a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2022 er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cwrdd â'r gofynion sydd arnynt yn unol â Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p>			

⁵ [Local-Authority-Population-Assessment-Reports-FINAL.pdf \(ncphwr.org.uk\)](https://www.ncphwr.org.uk/Local-Authority-Population-Assessment-Reports-FINAL.pdf)

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

C6b – A ydi'r ddogfen canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cod hwn yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth am yr adran yma? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.			
Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i Gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i Anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
Gweler ein hymateb i gwestiwn C6a.			

C7 – ADRAN 4: Trefniadau ar gyfer monitro gwasanaethau awtistiaeth			
C7a - A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau a phobl awtistig? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.			
Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i Gytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i Anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
Gweler ein hymateb i gwestiwn C7b.			

C7b – A ydi'r ddogfen canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cod hwn yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth am yr adran yma? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.			
Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i Gytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i Anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
Eglurwch os gwelwch yn dda:			
Nodir yn adran 4.4 y canllawiau bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad galw a chapasiti o ddarpariaeth gwasanaethau ledled Cymru. Yn rhinwedd ein pryderon yn ein hatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad hwn gofynnwn ichi sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cynnwys adolygiad manwl o'r galw a'r capasiti mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg i bobl awtistig a hynny o fewn cyd-destun darparu gwasanaethau Cymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014			

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth lawn i asesiadau awtistiaeth, y gweithlu a chynllunio gwasanaethau fel y bo pobl awtistig sy'n siarad Cymraeg yn derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith.

C8 – ADRAN 4: Trefniadau ar gyfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chodi Ymwybyddiaeth

C8a - A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau a phobl awtistig? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno	Tueddu i Gytuno	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Nid oes gennym sylw.

C8b – A ydi'r ddogfen canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cod hwn yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth am yr adran yma? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno	Tueddu i Gytuno	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Nid oes gennym sylw.

C9 Geirfa: A ydych yn cytuno a'r diffiniadau yn yr eirfa

C9 - A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau a phobl awtistig? Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno	Tueddu i Gytuno	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Nid oes gennym sylw.

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

CWESTIYNAU ERAILL

C10. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a gaiff y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Nid oes gennym sylw.

C10.1 Ydych chi'n credu y caiff y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

Nid oes gennym sylw.

C10.2 Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

Nid oes gennym sylw.

C11 Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a

ii) sicrhau na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C11.1 Pa effeithiau ydych chi'n meddwl y byddent yn eu cael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Mae'r canllawiau yn cynnwys datganiad cyffredinol ynghylch y Gymraeg, ac rydym yn croesawu hyn. Mae'n tynnu sylw at yr angen i 'sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y gwaith cynllunio a chyflenwi a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg awtistig, heb iddynt orfod gofyn amdanynt yn unol â chysyniad y cynnig rhagweithiol.' Fodd bynnag mae ein hymatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad hwn yn amlygu nifer o ystyriaethau y mae angen ymdrin â hwy ar fyrder ac mewn manylder er mwyn sicrhau bod y cod ymarfer hwn mewn gwirionedd yn arwain at ddarparu gwasanaethau Cymraeg i bobl awtistig. Yn benodol mae gennym bryderon am:

Asesiadau awtistiaeth (gweler C3a a C3b): Rydym yn bryderus iawn nad oes asesiadau awtistiaeth Cymraeg sydd wedi'u safoni ac nad oes gweithlu digonol sy'n gallu cynnal asesiadau awtistiaeth yn y Gymraeg.

Asesiadau o'r boblogaeth (gweler C6a a C6b): Rydym yn bryderus ynghylch y graddau y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi asesu anghenion siaradwyr Cymraeg awtistig

Drafft Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r arweiniad sy'n cefnogi

ac yn cynllunio a darparu gwasanaethau ar sail hynny. Oherwydd hynny, rydym yn bryderus ynghylch sut y gellir gweithredu'r cod ymarfer hwn yn llawn mewn perthynas â gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg awtistig.

Ar sail y pryderon hyn credwn bod angen gwneud asesiad llawn o'r graddau y mae modd gweithredu'r cod ymarfer hwn o safbwynt darparu gwasanaethau Cymraeg. Rhaid sicrhau wedyn bod camau yn cael eu cynllunio a'u gweithredu i lenwi'r bylchau hynny o fewn amserlen resymol. Rhaid hefyd i'r cod ymarfer gydnabod y bylchau presennol hynny a chynnwys camau tymor byr i geisio unioni'r sefyllfa (e.e. drwy ddarpariaethau trawsffiniol) hyd nes y bydd gwasanaethau awtistiaeth llawn ar gael yn y Gymraeg ym mhob ardal.

Yn ogystal â hyn gofynnwn i Lywodraeth Cymru gynnal astudiaeth o'r graddau y mae'r asesiadau o'r boblogaeth a wneir yn unol â Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddigonol mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg i bobl awtistig.

C12 Esboniwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y canllawiau, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad ydynt yn cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweler ein hymateb i gwestiwn C12.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi

Esboniwch os gwelwch yn dda

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y we neu mewn adroddiad. I gadw eich ymateb yn ddiennw ticiwch y blwch.

saa